GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (CHURCH STREET, Y TRALLWNG, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2010

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn adnewyddu prif bibell nwy ar gefnffordd Amwythig i Ddolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yn Church Street, y Trallwng yn Sir Powys.

Disgwylir y daw'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol ar ei gyfer, i rym am 09:00 o'r gloch ar 6 Rhagfyr 2010 ac y bydd yn parhau'n weithredol tan 17:00 o'r gloch ar 13 Rhagfyr 2010, neu hyd oni fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n derfynol. Cedwir ar agor y fynedfa i'r maes parcio cyhoeddus.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd pob cerbyd rhag teithio ar y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'r goleuadau traffig ger Rhif 1 Church Street i'r tu allan i Rif 13 Church Street, ger y gyffordd â'r B4381 Brook Street. Y llwybr amgen i gerbydau sy'n teithio tua'r gogledd fydd iddynt deithio tua'r gogledd-orllewin ar hyd Broad Street, tua'r gogledd ar hyd Jehu Road a thua'r de-ddwyrain ar hyd Brook Street. I'r gwrthwyneb i gerbydau sy'n teithio tua'r de.

Er na ddisgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod, bydd yn aros yn ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf fel mesur wrth gefn pe bai angen i'r gwaith gael ei ailamserlennu neu pe bai'n ofynnol gwneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn

www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2010).

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN GAN IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A458 TRUNK ROAD (CHURCH STREET, WELSHPOOL, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2010

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary for a gas main to be replaced on the Shrewsbury - Dolgellau Trunk Road (A458) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Church Street, Welshpool in the County of Powys.

It is expected that the prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 09:00 hours on 6 December 2010 and will remain in force until 17:00 hours on 13 December 2010 or until the temporary traffic signs are removed. Access to the public car park will be maintained.

The effect of the Order is to prohibit all vehicles from proceeding in that length of the trunk road which extends from the traffic lights near No.1 Church Street to outside No.13 Church Street, near the junction with the B4381 Brook Street. The alternative route for northbound vehicles will be to proceed north- westwards along Broad Street, northwards along Jehu Road and south eastwards along Brook Street. Vice versa for southbound vehicles.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Assembly Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2010).

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE